**Pennaeth Economi a Chymuned**
**Head of Economy & Community**
Sioned E. Williams

Gofynnwch am/Ask for: Sioned E Williams
☎ (01286) 679547
SionedEWilliams@gwynedd.gov.uk


Ein Cyf / Our Ref: **SEW/gh**
Eich Cyf / Your Ref: P-04-562

28 Ionawr, 2015

Mr. William Powell, AC/AM,
Cadeirydd Pwyllgor Deisebau Llywodraeth Cymru,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd. CF99 1NA

(Stephen.George@wales.gov.uk)

Annwyl William Powell AC, (Stephen.George@wales.gov.uk)

**Deiseb 04-04-562: Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon**

Diolch i chi am eich llythyr a dderbyniwyd ar 13 Ionawr, 2015 ar ran Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch deiseb i sefydlu Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon a'r wybodaeth ychwanegol oedd wedi ei dderbyn gan y deisebydd.


Fel a nodais yn fy llythyr blaenorol, ers rhai blynyddoedd bellach mae cynlluniau wedi eu trafod a'u gweithredu i wella dehongli treftadaeth Caernarfon ac mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol iawn i'r egwyddor o ddatblygu Caernarfon fel cyrchfan treftadaeth a diwylliant o'r ansawdd orau.

Mae cydweithio agos rhwng y Cyngor, Cadw ac adrannau Llywodraeth Cymru'n gyffredinol, yn ogystal â phartneriaid yn nhref Caernarfon ac mae cynlluniau cyffroes yn cael eu datblygu ar hyn o bryd trwy Raglen Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llywodraeth Cymru a chynllun Creu Cymunedau Cyfoes y Cyngor Celfyddydau yn ogystal â ffynonellau ariannu eraill. Gallai bod cyfleon trwy'r cynlluniau hyn i edrych yn greadigol ac yn arloesol ar y ffordd mae Caernarfon yn cael ei ddehongli yn ei chyfanrwydd.

Byddai angen i Gyngor Gwynedd ystyried cais y deisebydd yng nghyd-destun y cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan bartneriaid yng Nghaernarfon a phe byddai cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer canolfan dreftadaeth, byddai'n rhaid iddi brofi ei bod yn hyfyw ac yn gynaliadwy er mwyn derbyn cefnogaeth y Cyngor.

Mae Cyngor Gwynedd yn fodlon trafod ymhellach gyda'r deisebydd a phartneriaid lleol a chenedlaethol. A fyddech chi felly'n fodlon gyrru manylion cyswllt y deisebydd ymlaen ataf os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch yn gywir,



Sioned E Williams

**Pennaeth Economi a Chymuned**